Childnet International

# Digi-hwyaden a'r Castell Hud



*Gan*
**Lindsay Buck**

*Lluniau gan*
**Stephanie Cartwright**

© Hawlfraint Childnet 2021
Cedwir pob hawl.

Cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2021 gan Childnet International.

ISBN 978-0-9573506-5-6.

Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffordd, yn electronig, mecanyddol, llungopi, recordiad neu fel arall, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan berchennog yr hawlfraint Childnet.

Testun gan Lindsay Buck, Childnet, 2021.

Gwaith dylunio a lluniau gan Stephanie Cartwright, 2021.

Mae hawliau moesol yr awdur a'r darlunydd wedi cael eu harddel.

Diolch i fontdiner.com am gael defnyddio'r ffurfdeip ar y clawr.

# Digi-hwyaden a'r Castell Hud



*Gan* **Lindsay Buck**
*Lluniau gan* **Stephanie Cartwright**

Ding-dong! Rhedodd Digi-hwyaden at Dadi Hwyaden gan weld ei ffrindiau yn sefyll y tu allan.



Agorodd y drws iddyn nhw ar frys a dyma nhw i gyd yn rhuthro i fyny'r grisiau mewn eiliad!

Wrth iddyn nhw ddod allan o ystafell wely Digi-hwyaden, roedd Dadi Hwyaden mewn syndod.

"WAW!" meddai. "Pwy ydych chi?"




“Rydym yn ddewiniaid”, atebodd Digi-hwydan mewn llais dirgel.

“Cymerwch ofal, neu efallai y byddwn yn eich troi’n garreg!” meddai Bili.buwch fel jôc.



"Dad, mae yna gêm newydd rydyn ni eisiau ei chwarae. Alli di ei lwytho i lawr i ni, plîs?" gofynnodd Digi-hwyaden.

"Pa fath o gêm yw hi?" atebodd Dadi Hwyaden.



“Mae yna gastell hud a rydych yn creu gwahanol swynion ar gyfer pob lefel!” brefodd Dot_Dafad yn frwdfrydig.

Llwyddodd Dadi Hwyaden i ddod o hyd i’r gêm. I greu’r swynion roedd rhaid i chi gasglu darnau arian a’u cyfnewid am bethau oedd wedi eu cuddio o gwmpas y castell.



Roedd angen pedwar blodyn arnyn nhw i orffen eu swyn cyntaf. Gwelodd Bili.Buwch un aur yn tyfu ymysg y llwyni.

“Edrychwch ar hwnna” ochneidiodd.



Ar ôl clicio arno, ymddangosodd neges. 'BLODYN AUR! Casglwch un blodyn aur i gwblhau eich swyn. Ydych chi eisiau parhau?'

Ar ôl clicio 'Ydw' ymddangosodd bocs arall. 'Rhowch eich cyfrinair i brynu blodyn aur.'





“Hmmm,” meddyliodd Digi-hwyaden. “Beth mae hynny yn ei olygu? Well i mi nôl Dadi Hwyaden.”

“Rwy'n gwybod beth mae'n ei olygu,” atebodd Dot_Dafad yn hyderus. “Weithiau mae angen cyfrinair gan oedolyn i gael pethau gwell mewn gemau. Dwi’n dda am ddyfalu cyfrineiriau!”




Meddyliodd am ychydig a theipiodd ‘Digi-hwyaden’ yn y bocs. Ar ôl ychydig eiliadau, ymddangosodd y blodyn yn eu basged.

“Hwrê!” bloeddiodd pawb a sgrialu’n ôl i'r castell.



Er bod yr eitemau aur yn anoddach i'w canfod, roedd dod o hyd iddyn nhw'n golygu eu bod yn symud ymlaen drwy'r gêm yn llawer cyflymach.

"Roedd hynny yn wych," meddai Digi-hwyaden. "Sut oeddet ti'n gwybod beth oedd y cyfrinair?"



“Roedd yn hawdd,” atebodd Dot_Dafad. “Mae oedolion yn aml yn dewis eu hoff bethau. Dyna pam dewisodd dy enw di! Fy nghyfrinair i yw porfaffres oherwydd dyna yw fy hoff beth i.”




“Fy un i yw caemwd,” meddai Bili.buwch. “A fy un i yw cacen-pen-blwydd” ychwanegodd Digi-hwyaden, a chwarddodd pawb yn uchel. Roedd gwybod cyfrineiriau ei gilydd fel bod mewn clwb cyfrinachol.



Aeth ychydig ddyddiau heibio ac roedd Digi-hwyaden yn chwarae'r gêm yn eithaf aml. Roedd eisiau dangos i Mami a Dadi Hwyaden sut hwyl roedd e’n ei chael arni, felly eisteddodd y ddau i wylio.

“Dwi angen dod o hyd i dair potel hud,” meddai.







Yn fuan gwelodd Mami Hwyaden un ar silff lychlyd.

“Mi allwn gael honna, ond does gen i ddim digon o ddarnau arian i gael tair o’r rhain. Mae cael un aur yn cynnwys fwy o bŵer hud nag sydd yn yr holl boteli eraill, felly mae hynny'n gyflymach,” eglurodd. “Edrychwch, dyna hi!”

Cliciodd ar y botel aur a pharhau ar ei antur. Yn sydyn, ymddangosodd lliwiau llachar ar y sgrin, nes llenwyd yr ystafell â goleuni.



“Y_Dylluan_Ddoeth sydd yna!” meddent gan gwacian.

A siŵr i chi, ymddangosodd Y_Dylluan_Ddoeth yn blu i gyd, ond nid oedd ar ei ben ei hun. Gydag ail fflach ymddangosodd ail dylluan!

“O Y_Dylluan_Ddoeth,” meddai'n chwareus, “ar ôl blynyddoedd o deithio o un sgrin i’r llall.... rwyt ti'n dal yn diweddu mewn twmpath!”




“Y_Dylluan_Graff,” meddai’n gynnes. “Fi fydd yn rhedeg gwefan Fferm Ffeithiau pan fydd Y_Dylluan_Ddoeth yn ymddeol yn fuan, felly dwi’n mynd gydag ef ar ei holl ymweliadau. Mae hwn yn achos brys; felly daethom cyn gynted â phosib.”



“Achos brys?” gofynnodd Mami Hwyaden. “Mae'n rhaid bod yna ryw gamgymeriad.”

“Dim camgymeriad,” meddai Y_Dylluan_Graff gan geisio tawelu ei hofnau, “ond allwch chi wirio'r cyfrif e-bost rydych chi’n ei ddefnyddio ar gyfer y gêm hon os gwelwch yn dda.”



Ar ôl edrych ar-lein, roedden nhw mewn penbleth.
Neges ar ôl neges, bob un yn dweud yr un peth.

'Rydych chi wedi prynu: 1 blodyn aur, 1 gem aur, 1 modrwy aur...' Aeth y rhestr ymlaen ac ymlaen gan orffen gyda '1 potel aur.'



Trodd Mami a Daid Hwyaden yn eithaf gwelw wrth iddyn nhw sylwi beth oedd wedi digwydd. Roedd Dadi Hwyaden yn gymeriad hamddenol iawn fel arfer felly ceisiodd beidio â chynhyrfu.

“Digi-hwyaden, mae’r eitemau aur yna yn costio arian GO IAWN. Sut ddigwyddodd hyn?”



"Dw i ddim yn gwybod," atebodd Digi-hwyaden, gan deimlo'n bryderus. "Mae'n gêm am ddim, ond..." gan oedi i feddwl, "...efallai bod gan hyn rywbeth i'w wneud â'r cyfrinair?"



"Ar ôl clicio ar y blodyn aur cyntaf, gofynnodd y gêm am ein cyfrinair a llwyddodd Dot_Dafad ei ddyfalu. Teipiodd fy enw ac fe gawson ni'r blodyn. Roedd fel hud a lledrith!"



“Yn anffodus, nid hud a lledrith oedd hynny,” atebodd Y_Dylluan_Graff yn dawel. “Bob tro roeddet ti’n clicio ar eitem aur, roedd rhaid i dy rieni dalu amdani.”






Estynnodd Digi-hwyaden ei freichiau allan i gael cwtsh. “Mae'n wir ddrwg gen i,” ochneidiodd. “Doeddwn i ddim yn gwybod dim am hyn.”

“Nid dy fai di yw hyn o gwbl,” meddai Dadi Hwyaden yn addfwyn. “Fi lwythodd y gêm lawr i ti, a doeddwn i ddim yn gwybod chwaith.”


Ar ôl cael paned o de i ddod dros y sioc, lluniodd Mami a Dadi Hwyaden gynllun.


"Mae'n rhyfeddol o hawdd prynu pethau ar-lein," meddai Y_Dylluan_Graff, "weithiau y cyfan sydd ei angen yw un clic, neu hyd yn oed dim ond eich llais! Mae'n hawdd iawn gwneud hynny hefyd mewn camgymeriad, a dyna ble galla i eich helpu."




“Mae yna gamau y gallwn eu cymryd er mwyn ceisio cael eich arian yn ôl,” meddai, “ond mae gen i ofn na alla i sicrhau hynny. Ond, fe allwn stopio hyn rhag digwydd eto, fel na fyddwch yn cael eich dychryn gan unrhyw gostau cudd!

“Cyn i chi chwarae gêm, ewch ar-lein i weld a yw'r gêm weithiau’n gofyn i chi wario arian go-iawn. Gallwch rwystro hynny rhag digwydd gyda chyfrinair cryf, ac ar rai dyfeisiau, gallwch ddewis rhwystro prynu pethau mewn gemau.”






"Mae gan gyfrinair cryf gymysgedd o rifau, llythrennau a symbolau. Ddylai neb arall allu dyfalu eich cyfrinair a dylech ei gadw'n ddiogel – peidiwch â dweud wrth neb arall beth yw e."

“Digi-hwyaden, mae’n iawn i dy rieni wybod beth yw dy gyfrineiriau di, ond os wyt ti wedi dweud wrth unrhyw ffrindiau, dylet ti newid y cyfrinair hwnnw ar unwaith. Bydd ffrind da yn gwybod na ddylid rhannu cyfrineiriau.”





“Diolch yn fawr iawn am eich help,” dywedodd Mami a Dadi Hwyaden gyda rhyddhad.

“Beth am i ni gyd chwarae gyda'n gilydd?” awgrymodd Y_Dylluan_Graff. “Gallaf ddangos i ti ble mae dod o hyd i fwy o ddarnau arian am ddim Digi-hwyaden. Hon yw un o fy hoff gemau i hefyd. A dweud y gwir, dwi wedi cwblhau'r castell hud....ddwy waith!”

Edrychodd
Y_Dylluan_Ddoeth yn
annwyl arnyn nhw'n
chwarae gyda'i gilydd.
Gyda Y_Dylluan_Graff yn
gofalu amdanynt, roedd
yn gwybod y bydden nhw
mewn dwylo diogel.



**Trafodwch y stori:**

1. Beth oedd yn digwydd bob tro yr oedd Digi-hwyaden yn clicio ar eitem aur?

2. Pan oedd y gêm yn gofyn am gyfrinair, beth ddylai Digi-hwyaden fod wedi ei wneud?

3. Beth fyddech yn ei ddweud petai ffrind yn gofyn i chi rannu cyfrinair?

4. Sut allwch chi wneud i gyfrinair fod yn gryf ac yn un anodd i'w ddyfalu?

5. Pwy yw'r oedolion y gallwch siarad â nhw os bydd unrhyw beth yn eich poeni neu'n eich gofidio?

## I rieni a gofalwyr

### Cadw plant yn ddiogel ar-lein

Mae plant wrth eu bodd yn defnyddio technoleg ac maen nhw'n dysgu canfod eu ffordd drwy wefannau, apiau, gemau ar-lein, consolau, a thechnoleg sgrin-gyffwrdd, e.e. tabledi a ffonau clyfar, yn ifanc iawn. Mae angen cefnogaeth ar blant yn y meysydd hyn, er mwyn cael y gorau o ddefnyddio'r rhyngrwyd yn iawn o'r cychwyn cyntaf.

### Ble mae dechrau arni?

Y ffordd orau i gadw eich teulu'n ddiogel ar-lein, a deall sut mae eich plant yn defnyddio'r rhyngrwyd, ydy drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd gyda'ch gilydd. Byddwch yn gadarnhaol a chynnwys y technolegau mae eich plant yn mwynhau eu defnyddio, gan chwilio am unrhyw nodweddion diogelwch a allai fod ar gael.

### A ddylwn i gyflwyno unrhyw reolau?

Mae creu cytundeb teulu yn ffordd ddefnyddiol o sefydlu eich disgwyliadau ynghylch gweithgareddau ar-lein. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi feddwl am hyn:

• Defnyddio apiau, gemau a chynnwys arall (ee fideos) sy'n briodol i oedran.
• Gyda phwy mae eich plentyn yn siarad, yn chwarae â nhw ac yn gallu cyfathrebu â nhw ar-lein.
• Faint o amser mae eich plentyn yn ei dreulio ar-lein, a sut mae cael cydbwysedd â gweithgareddau all-lein.
• Ymddygiad cadarnhaol rydych chi'n dymuno ei annog.

Cofiwch, mae beth sy'n iawn a ddim yn iawn all-lein hefyd yn iawn a ddim yn iawn ar-lein.

### Sut gallaf i oruchwylio fy mhlentyn?

Gellir goruchwylio a defnyddio dyfeisiau cludadwy e.e. Ffonau clyfar, consolau a thabledi ble gallwch chi gadw llygaid arnynt. Hefyd, gall gosod eich cyfrifiadur neu liniadur mewn rhan brysur o'r tŷ ei gwneud yn haws i chi gyfranogi at ddefnydd eich plentyn o dechnoleg.

## Faint o amser sy'n ormod?

Mae modd defnyddio rhai strategaethau i helpu i reoli faint o amser mae rhywun yn ei dreulio ar-lein, fel cytuno ar gyfyngiad amser neu ddefnyddio adnoddau cyfyngu ar amser, dynodi amser i ddefnyddio'r rhyngrwyd gyda'ch gilydd bob wythnos, neu dynnu dyfeisiau cludadwy o ystafell wely eich plentyn gyda'r nos, er mwyn osgoi blinder.

## Oes yna adnoddau i helpu?

Bydd eich darparwr gwasanaethau rhyngrwyd a'ch cwmni ffôn symudol yn darparu hidlyddion am ddim i chi i helpu i atal cynnwys nad yw'n briodol i oedran ar gyfer plant. Mae gwefannau gwneuthurwyr dyfeisiau (e.e. consolau gemau) yn amlinellu'r dulliau rheoli sydd ar gael i chi hefyd. Mae'n bosib fod peiriannau chwilio yn cynnwys modd 'chwilio diogel' y gallwch ei roi ar waith a'i gloi. Mae rheolaeth gan rieni yn help mawr, ond dim dyma'r ateb cyflawn. Mae hyn yn gweithio'n well ar y cyd â goruchwyliaeth ac ymgysylltu, i helpu eich plant i ddeall sut mae cadw'n ddiogel ar-lein.

## Pa gyngor gallaf i ei roi i fy mhlentyn?

Addysg ydy'r adnodd gorau i blentyn, felly trafodwch bwysigrwydd dweud wrth oedolyn ar unwaith os bydd rhywun neu rywbeth yn gwneud iddo deimlo'n ypset ar-lein. Dyma rai strategaethau eraill y gallwch eu defnyddio er mwyn helpu i ddelio â chynnwys neu gyswllt digroeso: diffodd y sgrin, cymryd saib neu adael yr ap/gêm, neu droi'r ddyfais drosodd a'i rhoi i lawr. Mae hefyd yn bwysig bod eich plentyn yn sylweddoli efallai nad ydy defnyddwyr eraill y rhyngrwyd yn pwy maen nhw'n ei ddweud ydyn nhw, ac mai dieithriaid ydy 'ffrindiau' maen nhw'n ei wneud ar-lein, felly dylid cadw ei holl wybodaeth bersonol yn ddiogel.

## Pa gemau y mae'n iawn i fy mhlentyn eu chwarae?

Mae nifer o wahanol gemau a phrofiadau chwarae ar-lein, e.e. cyfrifiaduron, consolau, gemau ar y rhyngrwyd ac apiau. Mae'n bosib mai drwy chwarae gemau y bydd eich plentyn yn cael profiad o fywyd ar-lein am y tro cyntaf. Ond, mae rhai gemau ar gyfer cynulleidfaoedd hŷn, ac maen nhw'n cynnwys iaith, delweddau a themâu anaddas i blant. Felly, mae'n bwysig bod y gemau mae eich plant yn eu chwarae yn briodol i'w hoedran, ac mae hynny'n dibynnu ar gynnwys y gêm. Gall chwarae gemau eich hun fod yn hwyl a bydd hynny hefyd yn eich galluogi i adnabod y nodweddion diogelwch a ddarperir, megis riportio i gyfryngwr.

## Alla i atal pryniannau mewn-ap?

Os bydd ap yn cynnig pryniannau mewn-ap, dylai hynny gael ei labelu'n glir. Yn achos pryniannau a wneir drwy gamgymeriad, efallai y bydd yn bosibl hawlio ad-daliad drwy eich cyfrif yn y stôr apiau. Os na fydd hynny yn llwyddiannus, mae opsiynau eraill yn cynnwys cysylltu â datblygwr yr ap, neu herio'r taliadau gyda darparwr eich cerdyn. Gallwch atal pryniannau mewn-ap damweiniol drwy osod cyfrinair cryf ar eich cyfrif a sicrhau nad yw eich plant yn ei weld nac yn ei ddefnyddio. Mae rhai dyfeisiau hefyd yn defnyddio technoleg biometreg (e.e. Ôl bawd / ID wyneb) yn hytrach na chyfrinair, ac efallai y byddwch hefyd yn gallu diffodd pryniannau mewn-ap yn gyfan gwbl.

## Ble gallaf i riportio rhywbeth?

Pan fyddwch yn riportio ar-lein, chwiliwch am y gwasanaethau cymedroli, neu'r nodweddion diogelwch/help, yn yr ap, y gêm neu ar y wefan. Os oes gennych chi amheuon am ymddygiad eraill ar-lein, mae modd i chi riportio i CEOP. Mae modd riportio cynnwys troseddol ar-lein i'r IWF. I gael gwybodaeth am sut mae rhoi gwybod am gynnwys niweidiol ar-lein, ac i gael rhagor o gymorth, ewch i **www.reportharmfulcontent.com.**

**Ewch i childnet.com/parents-and-carers i weld y cyngor yn llawn.**

**Childnet**

Nod Childnet ydy gweithio mewn partneriaeth ag eraill o amgylch y byd i helpu i wneud y rhyngrwyd yn lle gwych a diogel i blant.

Mae Childnet yn elusen yn y DU sy'n darparu gweithgareddau cyfranogiad ieuenctid, addysg a pholisïau.

Mae Childnet yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc 3-18 oed bob wythnos, yn ogystal â rhieni, gofalwyr, athrawon a gweithwyr proffesiynol, i glywed am eu profiadau go iawn ar-lein a'r pethau cadarnhaol maen nhw'n eu gwneud, yn ogystal â rhannu cyngor am ddiogelwch.


Mae Childnet wedi parhau i fod ar flaen y gad gyda'r tueddiadau diweddaraf drwy weithio'n uniongyrchol gyda miloedd o blant a phobl ifanc bob blwyddyn, ac mae gan yr elusen adnoddau arloesol i blant a phobl ifanc 3-18 oed, rhieni, gofalwyr ac athrawon, a rhaglenni diogelwch ar-lein sy'n grymuso disgyblion.

Mae Childnet yn un o'r tair elusen sy'n rhan o'r UK Safer Internet Centre, sy'n cydlynu Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn fwy Diogel, sy'n cyrraedd miliynau o blant yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.childnet.com.**

**UK Safer Internet Centre**

Mae Childnet International yn bartner yn UK Safer Internet Centre gyda'r Internet Watch Foundation a South West Grid for Learning. Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu ar y cyd gan Gyfleuster Cysylltu Ewrop yr Undeb Ewropeaidd. I gael mwy o wybodaeth, ewch i **www.saferinternet.org.uk.**





Mae yna gêm newydd y mae pawb yn ei chwarae, ac mae Digi-hwyaden eisiau ymuno yn yr hwyl!

Gyda chymorth ei ffrindiau, mae'n archwilio'r castell hud ac yn gwibio drwy'r lefelau ar ôl i ganfyddiad lwcus wneud hynny yn haws.

Ond mae Digi-hwyaden yn mynd i gael sioc, pan mae'n darganfod nad cynhwysion yr hud yw'r unig bethau sydd wedi eu cuddio yn y gêm...

Co-financed by the Connecting Europe Facility of the European Union

ISBN 978-0-9573506-5-6